**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

26 Tachwedd 2021

Annwyl Paul,

Diolch am fy ngwahodd i gyfarfod Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i roi tystiolaeth fel rhan o adolygiad y Pwyllgor o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) 2021 (y Rheoliadau).

Fel y gwyddoch, mae'r Rheoliadau'n wrthi'n destun adolygiad barnwrol. Er bod y gwrandawiad ei hun wedi'i gynnal, mae'r achos yn parhau'n fyw ac nid oes dyfarniad eto wedi'i gyhoeddi. Rwy'n deall na chaiff y dyfarniad ei wneud cyn cyfarfod y Pwyllgor ar 9 Rhagfyr,

Mater i chi fel Cadeirydd y Pwyllgor yw penderfynu a fyddai'n briodol cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor yn union cyn i'r llys roi ei ddyfarniad ar yr achos. Fel Gweinidog, rhaid i minnau benderfynu ar briodoldeb unrhyw dystiolaeth y gallwn i neu fy swyddogion ei rhoi fel rhan o adolygiad y Pwyllgor, yn enwedig o gofio mai fy mhenderfyniad i ar sail cyngor fy swyddogion sy'n destun yr her gyfreithiol.

Ar ôl ystyried y risg o ragfarnu neu amharu ar yr achos llys, rwyf wedi penderfynu y dylid cyfyngu'r dystiolaeth y gallwn i neu fy swyddogion ei rhoi cyn cyhoeddi dyfarniad yr achos, i faterion nad ydynt yn berthnasol i'r rhesymau dros gynnal i'r achos cyfreithiol. Rwy'n bryderus y gallai hynny gyfyngu'n fawr ar fy ngallu i ymdrin yn effeithiol â'r adolygiad. Byddai hynny i mi yn anfoddhaol, ac rwy'n credu y byddai aelodau'r Pwyllgor o'r un farn.

Mae'r cwestiynau a ofynnwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gan y Pwyllgor ar 30 Medi yn ymwneud yn uniongyrchol â sail yr her ac â materion a godwyd yn y gwrandawiad llys. Yn wahanol i CNC, ni fyddwn yn gallu ateb cwestiynau am y materion hyn, na nifer o faterion eraill y byddai'r Pwyllgor yn debygol o'u gofyn, yn llawn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er fy mod yn cydnabod bod y Pwyllgor yn ymwybodol o gyfarwyddyd y Senedd i adolygu'r Rheoliadau ar frys, rwy'n awgrymu'ch bod yn ystyried gohirio cyfarfod y Pwyllgor y byddaf i a'm swyddogion yn rhoi tystiolaeth ynddo tan ar ôl cyhoeddi'r dyfarniad pan na fyddai cyfyngiadau arnom.  Byddai hynny'n golygu y gallwn roi atebion llawn a byddwn hefyd yn gallu ystyried dyfarniad y llys yn ystod y cyfarfod.

Rwy'n fwy na pharod i ofyn i'm swyddogion drafod â chlerc y pwyllgor i wneud yn siŵr eich bod yn cael gwybod cyn gynted ag y bydd y llys yn rhestru pryd y bydd yn cyhoeddi'r dyfarniad er mwyn ichi allu trefnu cyfarfod o'r pwyllgor cyn gynted â phosibl wedi hynny.

Yn gywir



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**